# Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau

## Tuag at Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn

Mawrth 2025



Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Rhagair

## Ken Skates AS
### Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

Mae bysiau'n wasanaeth cyhoeddus hanfodol, sy'n cludo tri chwarter o'r holl deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.[1] Maent yn achubiaeth i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac ynysig yn ein cymdeithas ac i ychydig o dan 20 y cant o aelwydydd Cymru sydd heb gar.[2] Mae pobl yn dibynnu ar fysiau i'w cludo i'r gweithle, i ymweld â ffrindiau a theulu, ac i gael mynediad at wasanaethau.

Fodd bynnag, nid yw'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau lleol yn effeithiol nac yn effeithlon. Nid yw bob amser yn darparu'r cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus sydd eu hangen ar gymunedau. Mae'r rhwydwaith bysiau wedi bod yn crebachu ers blynyddoedd lawer, ymhell cyn y pandemig, ond ers hynny mae wedi gwaethygu'n sylweddol. Wrth gwrs, mae'n galonogol gweld nifer y teithwyr mewn rhai ardaloedd trefol yn cynyddu, ond maent yn dal i fod yn is i raddau helaeth na'r lefelau cyn y pandemig. Y consensws yw bod angen newid.

Bydd y gwelliannau rydym yn eu cynnig yn newid y ffordd mae gwasanaethau bysiau'n cael eu darparu yma yng Nghymru. Credwn mai masnachfreinio bysiau yw'r dewis gorau i Gymru, oherwydd mae'n caniatáu inni ddylunio rhwydwaith bysiau sy'n rhoi pobl yn gyntaf. Bydd masnachfreinio yn gwneud gwell defnydd o'r cyllid sylweddol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau lleol, gan ein galluogi i ddylunio rhwydwaith sy'n gweithio i bobl a chymunedau.



Ers cyhoeddi'r Map Ffordd hwn am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2024, mae camau breision wedi'u cymryd, yn bennaf drwy gydweithio â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r diweddariadau sydd wedi'u cynnwys yn y fersiwn diweddaraf hwn yn adlewyrchu hyn.

Bydd diwygio gwasanaethau bysiau yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i bobl ar hyd a lled Cymru, yn enwedig y rheini sy'n cael trafferth gyda chostau byw, sy'n ynysig, sy'n hŷn neu sy'n anabl. Mae mynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth yn allweddol i greu Cymru decach a mwy cyfartal.

# James Price
## Prif Swyddog Gweithredol Trafnidiaeth Cymru



Rydyn ni i gyd yn gwybod am y rhwystredigaeth o orfod aros yn ofer am fws. Ers yn rhy hir, mae teithwyr yng Nghymru wedi profi'r profiad hwnnw. Mae teithwyr Cymru wedi bod yn aros yn rhy hir am wasanaeth bws da. Er gwaethaf gwaith caled gweithredwyr, llywodraeth leol a llywodraethau cenedlaethol dros ddegawdau, nid ydym wedi gallu chwalu'r rhwystrau i wella gwasanaethau bysiau. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau, mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu un rhwydwaith trafnidiaeth i Gymru.

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym am drawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio. O ran bysiau, mae hynny'n golygu creu gwasanaeth dibynadwy. Rydym yn cyflwyno prisiau teg a system docynnu hawdd ei deall. Rydym yn symleiddio'r wybodaeth a'r amserlenni. Rydym am i fysiau gysylltu â'r trenau. Bydd masnachfreinio bysiau yn gyfrwng i ni allu gwneud hyn ... a mwy. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mai bysiau fydd calon rhwydwaith trafnidiaeth Cymru. Er mwyn i fwy o bobl allu teithio'n gyfforddus ac yn gynaliadwy.

Bydd arian yn bwnc anodd. O ganlyniad, bydd y gwelliannau yn digwydd yn raddol. Rydym am newid y system wrth ei sylfeini, a chael mwy o reolaeth dros yr arian cyhoeddus fydd yn cael ei wario ar wasanaethau bysiau. Pan ddaw'r cyllid, gallwn wneud y newidiadau cyffrous y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'n fanwl sut y byddwn yn gwella'r gwasanaeth bysiau. Bydd yn rhaid iddo fod yn ymdrech ar y cyd, yn defnyddio'r gorau y gall y sectorau cyhoeddus a phreifat eu cynnig. Byddwn am siarad â theithwyr a gwrando arnyn nhw i adeiladu'r rhwydwaith gorau posibl. Mae'n her yr ydym yn disgwyl ymlaen ati.

# Ein Gweledigaeth

Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru wrthi'n creu rhwydwaith trafnidiaeth integredig. Bydd y rhwydwaith hwn yn dod â cherdded, olwynio, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ynghyd i wneud trafnidiaeth gynaliadwy y ffordd fwyaf hwylus o deithio. Mae bysiau'n rhan bwysig o'r weledigaeth hon. Rydym am annog mwy o bobl i deithio ar fws. Mae ar bobl Cymru angen rhwydwaith bysiau sy'n ddibynadwy, fforddiadwy, hyblyg a hawdd ei ddefnyddio.

# Gwybodaeth am y ddogfen hon

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru i esbonio sut rydym am ddiwygio gwasanaethau bysiau. Mae'n esbonio pam ein bod am newid, beth yw ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru a sut y byddwn yn troi'r weledigaeth hon yn realiti.

Mae hon yn ddogfen fyw. Cafodd y fersiwn hwn ei ddiweddaru ar Mawrth 2025. Mae'n rhoi disgrifiad bras o sut rydym am fynd ati i ddiwygio'r bysiau. Gan weithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau sy'n cynrychioli teithwyr, byddwn yn dal ati i fireinio ein dull gweithredu ar gyfer diwygio'r bysiau..

Mae Bil wrthi'n cael ei ddrafftio i osod y seiliau deddfwriaethol sydd eu hangen i ddiwygio'r bysiau. Gallai'r ddeddfwriaeth newydd gael ei newid ar ei thaith drwy'r Senedd. Os felly, efallai y caiff cyhoeddiadau a chanllawiau ychwanegol eu cynhyrchu i esbonio'r newidiadau.

# Cynnwys


Rhan un: Yr achos o blaid diwygio'r bysiau 6

Cyflwyniad 7

Pam mae angen y newid 9

Gwendidau dadreoleiddio 14

Gwasanaethau bysiau gwell 15

Llinell amser 16

Rhan dau: Gwireddu'n gweledigaeth gyda'n gilydd 18

Ffyrdd o weithio 19

Hwyluso cydweithio 20

Partneriaeth gymdeithasol a chysylltiadau diwydiannol 21

Cael pobl i ddod gyda ni 22

Rhan tri: Dylunio rhwydwaith bysiau'r dyfodol 28

Y 'cynnyrch cyfan' 29

Cynllunio'r rhwydwaith 32

Dibynnu ar y data 35

Y rhwydwaith bysiau ehangach 36

Rhan pedwar: Gwireddu ein gweledigaeth 38

Camau cyflawni 39

Rhan pump: Sicrhau llwyddiant 54

Cyflawni ein hamcanion 55

## Rhan un

# Yr achos o blaid diwygio'r bysiau



# Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae tua 190,000 o deithiau yn cael eu gwneud ar fysiau bob dydd.[3] Mae tri chwarter y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu gwneud ar fws.[4] Mae'n wasanaeth hanfodol i'r 19.4% o gartrefi Cymru sydd heb gar.[5] Mae penderfyniadau am wasanaethau bysiau yn cael effaith anghymesur ar fenywod; pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl anabl; pobl hŷn a phobl iau; a'r rhai sydd â gwaith cyflog isel neu ansicr.[6]

Ar hyn o bryd, nid yw rhwydwaith bysiau Cymru yn gwireddu ei botensial. Mae anawsterau ynghlwm wrth deithio ar fws sy'n gallu cadw pobl rhag teithio arnyn nhw o gwbl.

Mae'r rhwystrau hynny'n cynnwys gwasanaethau annibynadwy, dim modd defnyddio tocynnau ar fysiau gweithredwyr eraill, gwybodaeth yn anodd ei chael a dibynnu arni, gwasanaethau heb eu cydgysylltu a diffyg integreiddio â dulliau teithio eraill. Mae rhai rhwystrau eraill llai gweladwy ond gallant hwythau gadw pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft, pryderon ynghylch diogelwch personol. Mae gwreiddiau diffygion y rhwydwaith bysiau presennol yn deillio o broblemau systemig ehangach gan gynnwys dadreoleiddio, polisi cynllunio o blaid ceir a phandemig y coronafeirws newidiodd sut a faint y mae pobl yn teithio.

Os yw Cymru am daro'r targedau cynaliadwyedd uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i ni newid hyn. Mae helpu pobl i wneud penderfyniadau teithio cynaliadwy yn hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rhaid i ni wneud y peth iawn i'w wneud y peth hawsaf i'w wneud.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn o'r enw Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn. Mae'n disgrifio'r cynigion i weddnewid gwasanaethau bysiau. Roedd 96.1% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen newid er mwyn darparu gwasanaethau bysiau sy'n diwallu anghenion pobl Cymru ac sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd.[7]



Mae angen i ni chwalu'r rhwystrau hyn a hwyluso pethau i bobl allu teithio ar fws. O dan gynigion y Papur Gwyn, byddwn yn cael gwared ar y system dadreoleiddio bresennol ac yn diwygio'r gwasanaethau bysiau yn lle hynny.. Mae'r system dadreoleiddio bresennol yn caniatáu i weithredwyr redeg gwasanaethau bysiau er lles masnachol. Mae hynny'n gadael i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am gyllido a darparu gwasanaethau bysiau sy'n angenrheidiol er lles cymdeithas. Mae'r system fel y mae hi yn ei gwneud hi'n anodd dod â gwasanaethau bysiau masnachol a chymdeithasol angenrheidiol at ei gilydd mewn ffordd sy'n rhoi lle canolog i'r cwsmer yn y rhwydwaith bysiau.

O dan drefn ddiwygio'r bysiau, bydd awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gweithredwyr bysiau, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddylunio rhwydweithiau a gwasanaethau bysiau gwell, a hynny drwy fasnachfreinio'n bennaf. Gyda'r cyllid sydd ar gael, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl a chymunedau orau.

Mae masnachfreinio yn dod â chryfderau gweithredwyr preifat, cynghorau a chymunedau ynghyd i ddarparu gwasanaethau effeithlon o fewn rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydlynol wedi'i gynllunio. Mae diwygio'r bysiau'n cynnig manteision hirdymor mawr. Dyna pam, ar ôl edrych ar yr opsiynau a chlywed yr adborth, rydym am fwrw ymlaen â'r cynigion i ddiwygio'r rhwydwaith bysiau, drwy fasnachfreinio'n bennaf.. Bydd y newid hwn o les i bobl Cymru gan ddiwallu yr un pryd anghenion lleol a rhanbarthol a chydnabod gwahaniaethau.

Mae masnachfreinio bysiau yn golygu bod penderfyniadau am wasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau, oriau gweithredu a safonau ansawdd gwasanaeth, yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Caiff gweithredwyr bysiau wneud cais am gontractau i redeg gwasanaethau yn unol â'r fanyleb hon.

# Pam mae angen y newid

## Gwneud trafnidiaeth yn fwy cynaliadwy

Mae'r sector trafnidiaeth yn gyfrifol am gyfran rhy uchel o allyriadau carbon Cymru.[8] Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud i leihau allyriadau carbon o'i gymharu ag mewn sectorau eraill.[9] Er mwyn lleihau allyriadau carbon, mae angen i ni annog pobl i newid eu modd o deithio. Mae 'newid moddol' fel y'i gelwir yn golygu newid o un math o drafnidiaeth i un arall. Mae bysiau'n ddull gwyrddach o deithio ac maen nhw'n allweddol i leihau dibyniaeth pobl ar geir. Mae angen i ni roi dewis go iawn i bobl yn lle'r car ar gyfer teithiau bob dydd trwy wneud trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, olwynio a beicio yn opsiwn deniadol.

Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021, yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy. Ein hamcan yw lleihau nifer y milltiroedd a deithir fesul person mewn car 10% erbyn 2030 a chynyddu cyfran y teithiau a wneir ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i 45% erbyn 2040.[10]

Mae newid modd o deithio yn allweddol i leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth. Canfu adroddiad a gomisiynwyd gan Gydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr yn 2023 y gallai newid siwrneiau o geir i fws arwain at arbedion carbon o 0.8 miliwn tunnell o $CO_2$ erbyn 2050. Mae hynny yr un faint â holl allyriadau trafnidiaeth Caerffili yn 2019.[11]

Er mwyn cyrraedd ein targedau trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau carbon, mae angen i ni wneud teithio ar fws yn opsiwn mwy deniadol.



# Cynyddu manteision cymdeithasol trafnidiaeth gyhoeddus


Nid oes car gan 19.4% o aelwydydd Cymru.[12] Mae hyn yn tanlinellu rôl gymdeithasol ac economaidd hanfodol trafnidiaeth gyhoeddus i gymdeithas. Mae ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn achubiaeth i bobl ledled Cymru o ran cyrraedd gwasanaethau a'r gwaith, cwrdd â theulu a ffrindiau a chysylltu cymunedau.

Yn 2023/24, gwnaed 31 miliwn o deithiau ar fws gan ddeiliaid cardiau consesiwn.[13] Mae cardiau consesiwn yn cael eu rhoi i bobl yng Nghymru sydd dros 60 oed ac i bobl anabl sy'n bodloni'r amodau mewn deddfwriaeth. Cafodd pandemig y coronafeirws effaith fawr ar ymddygiad teithio'r grwpiau hyn. Mae wedi cymryd amser i bobl deimlo'n ddigon diogel a hyderus i ailddechrau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Heddiw, nid yw nifer y teithiau consesiwn ar fysiau wedi mynd yn ôl lle roedd e cyn y pandemig (gweler ffigur 1.1).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan hanfodol o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## Ffigur 1.1: Teithiau consesiwn i deithwyr yng Nghymru, 2008/09 i 2023/24[14]



# Gwella gwasanaethau bysiau gwledig a threfol

Mae traean pobl Cymru yn byw mewn ardal wledig.[15] Bydd pobl sy'n byw neu'n gweithio ym mherfeddion cefn gwlad, fel ffermdai ynysig, yn dal i orfod defnyddio cryn dipyn o'u cerbydau. Ond, mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth 'wledig' yn byw ar goridorau trafnidiaeth ger pentrefi a threfi gyda siopau a chyfleusterau. I'r pobl hyn, gallwn ddarparu ffyrdd da o gyrraedd trefi a phentrefi lleol heb ddibynnu ar gar.


Mae trefi a dinasoedd yn wynebu heriau gwahanol. Gall prysurdeb y ffyrdd wneud gwasanaethau bws yn annibynadwy. Gall defnydd uwch olygu gorfod aros yn hirach wrth safleoedd bws. Gall cerbydau sydd wedi'u parcio rwystro llwybrau bws. Er bod mwy o drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd poblog ar y cyfan, mae'r car preifat yn cael ei weld yn aml yn opsiwn mwy deniadol.

## Nid oes gan

# 19.4%

## o aelwydydd Cymru gar na fan[16]

### Ffigur 1.2: Aelwydydd heb gar na fan[17]



Rydym am weld cyfleoedd tecach i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y wlad a delio â'r rhwystrau i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n wynebu cymunedau gwledig. Er mwyn cyrraedd ein targedau ar gyfer newid dulliau teithio, mae angen gwir newid er mwyn cysylltu cymunedau â thrafnidiaeth gyhoeddus a helpu i leihau eu dibyniaeth ar eu ceir. Mae'n ddyletswydd arnom i ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu pobl Cymru â'i gilydd.

Bydd ein Llwybr Gwledig yn helpu'r bobl yn y cymunedau mwyaf anghysbell i ymweld â'u pentref neu eu tref leol. Wedi cyrraedd, bydd ganddyn nhw fwy o ddewis o drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol i deithio'n lleol neu o wasanaethau eraill ar gyfer teithiau pell. Mae gan fysiau rôl hanfodol yn y model hwn, yn enwedig gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw, fel fflecsi. Maen nhw'n gallu darparu gwasanaeth mwy hyblyg a haws ei addasu i gyrraedd cymunedau diarffordd a sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i gymaint o bobl â phosibl. Mae'r sector trafnidiaeth gymunedol yn bwysig o ran darparu'r math hwn o wasanaeth, a byddwn yn gweithio gyda nhw i ddysgu o'u profiad ac i sicrhau'r ddarpariaeth ehangaf posibl mewn ardaloedd gwledig.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r ateb yw bysiau, ac rydym am iddyn nhw gydweithio gydag ystod o opsiynau cludiant, gan gynnwys clybiau e-feiciau a cheir trydan, i helpu pobl i deithio mewn ardaloedd gwledig.

Mae clybiau ceir trydan hefyd yn cynnig ffordd newydd o edrych ar ddefnyddio ceir; Ar gyfer y rhai sydd am ddefnyddio llai ar eu ceir, neu sy'n eu defnyddio ambell waith yn unig, ac ar gyfer pobl a allai ei chael hi'n anodd fforddio'r gost uchel o redeg car. Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, ac ystod o bartneriaid i edrych ar sut y gallwn sicrhau mwy o glybiau ceir cymunedol.

Gan weithio gyda Sustrans, mae cynllun peilot E-Symudiad Llywodraeth Cymru wedi dangos potensial rhoi benthyciadau tymor canolig di-dâl ar gyfer prynu e-feiciau ac e-feiciau gargo i gefnogi cymunedau lleol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd hirdymor o gefnogi pobl i fanteisio ar e-feiciau ar gyfer teithiau lleol ledled Cymru, gan gynnwys cymorth i'w prynu.

Byddwn yn datblygu system fysiau sy'n gweithio ochr yn ochr â'r opsiynau eraill hyn fel rhan o rwydwaith integredig sy'n helpu pobl i deithio o le i le a gwneud dewisiadau teithio cynaliadwy ble bynnag y ceir cyfle i wneud hynny yng Nghymru.

# Cysylltu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus

Rydym am i'n teithwyr gael profiad di-fwlch wrth deithio ar ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. O dan y system dadreoleiddio bresennol, nid yw'r llwybrau na'r amserlenni a ddarperir gan wahanol weithredwyr wedi'u cysylltu â'i gilydd fel arfer.

Bydd masnachfreintiau'n ein helpu i integreiddio bysiau a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach. Byddwn yn gallu pennu amserlenni i sicrhau bod bysiau'n cysylltu â llwybrau bysiau eraill, trenau a dulliau teithio eraill. Bydd cael cadw golwg ar amserlenni trenau a bysiau yn golygu y gall Trafnidiaeth Cymru gydlynu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus genedlaethol. Drwy weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, byddwn yn gallu mynd i'r afael â ffactorau lleol sy'n rhwystro integreiddio.



# Gwendidau dadreoleiddio

Cafodd y diwydiant bysiau yng Nghymru ei ddadreoleiddio pan gyflwynwyd Deddf Trafnidiaeth 1985. Bwriad y Ddeddf oedd creu marchnad gystadleuol a rhydd, lle byddai gweithredwr yn cael rhedeg unrhyw wasanaethau a fyddai yn eu barn nhw yn gallu gwneud elw, hynny ar ôl cofrestru a bodloni gofynion diogelwch a gweithredu.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae dros 60 o weithredwyr yn rhedeg gwasanaethau bysiau lleol. Mae tua 20 o weithredwyr yn darparu gwasanaethau trafnidiaeth eraill sy'n rhedeg o dan bermit neu drwydded tacsi.[18]

Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd arian cyhoeddus sylweddol yn cael ei wario i gynnal gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Ac eto mae nifer y teithwyr ar fysiau, nifer y llwybrau bysiau a nifer y bysiau sydd ar y ffordd yn parhau i ostwng.

Ers pandemig y coronafeirws, mae llai o bobl wedi bod yn teithio ar fws. Cyn y pandemig, yn 2019/20, cafodd 92 miliwn o deithiau eu gwneud ar fysiau lleol yng Nghymru. Ond yn 2023/24, cafodd 72 miliwn o deithiau eu gwneud ar fysiau lleol, gostyngiad o 22.4% mewn teithio ar fysiau ers cyn y pandemig.[19] Mae'r diwydiant bysiau wedi gweld ei incwm yn gostwng ac mae rhai gweithredwyr bysiau wedi cael trafferth cynnal gwasanaeth proffidiol.

Mae dadreoleiddio yn golygu bod gweithredwyr bysiau yn cael dileu gwasanaethau os nad ydyn nhw'n broffidiol. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bysiau hanfodol yn dal i gael eu darparu, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi cymhorthdal i wasanaethau drwy gynlluniau fel y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau a'r Grantiau Rhwydwaith Bysiau. Yn 2024/25, neilltuodd Llywodraeth Cymru £64 miliwn i gefnogi bysiau lleol.

Ond mae model masnachfreintio yn ffordd well o fuddsoddi arian cyhoeddus. O dan y model hwn, gellir ailddyrannu arian sylweddol i greu rhwydwaith mwy effeithlon.
Mae'r drefn heb reoleiddio yn golygu bod gweithredwyr yn cael cynllunio gwasanaethau masnachol heb ystyried y drafnidiaeth gyhoeddus arall yn yr ardal. Gall hyn olygu bod sawl gweithredwr bysiau yn rhedeg gwasanaethau ar hyd yr un llwybr. Mewn rhai ardaloedd trefol, gall olygu bod sawl bws yn cyrraedd yr un stop tua'r un pryd.

Nid oes cyfeiriad strategol i'r system bresennol. Rydym am fod yn fwy effeithlon trwy osgoi dyblygu llwybrau. Rydym am greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gyd-gysylltiedig, yn symlach ac yn hawdd ei ddeall.

Mae gweithredwyr hefyd yn cael gosod eu prisiau eu hunain a phrin yw'r enghreifftiau o un gweithredwr yn derbyn tocynnau gweithredwr arall. Gall gorfod prynu nifer o docynnau gwahanol roi profiad gwael i deithwyr a'u troi yn erbyn teithio ar fws. Rydym am gyflwyno un tocyn a fyddai'n caniatáu i bobl deithio'n ddi-fwlch ar fysiau ac ar drenau.

Nid yw'r model dadreoleiddio ar gyfer bysiau wedi diwallu anghenion pobl. Nid yw'r model presennol yn gallu gyrru'r newid sydd ei angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Gyda diwygio'r bysiau, byddwn yn gallu ailfuddsoddi'r arian cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gynnal system ddarniog. Gallwn ail-fuddsoddi'r arian hwn i ddarparu bysiau gwell, rhoi anghenion pobl Cymru yn gyntaf yn ein cynlluniau a chyrraedd ein targedau uchelgeisiol o ran newid dulliau teithio ac allyriadau carbon.


# Gwasanaethau bysiau gwell

Er mwyn denu mwy o bobl i ddefnyddio bysiau, rydym am adeiladu rhwydwaith bysiau symlach. Rydym am gynnig ystod ehangach o deithiau. Rydym am ddarparu gwasanaethau mwy dibynadwy ac amlach. Rydym am weld oriau gweithredu hirach. Rydym am i bobl allu mynd yn rhwydd ar draws y rhwydwaith gan gysylltu â dulliau teithio eraill.


Mae gennym dri amcan ar gyfer y system fysiau newydd, fydd, o’u cyfuno, yn cefnogi ein huchelgais o ran newid moddol:

- Rhwydwaith bysiau sydd wedi’i gysylltu â gweddill y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac sy’n hawdd ei ddefnyddio (Un Rhwydwaith).
- Amserlenni cydlynol sy’n hawdd eu defnyddio ac sy’n caniatáu cysylltiadau ar draws trafnidiaeth gyhoeddus Cymru (Un Amserlen).
- System docynnu symlach er mwyn gallu teithio ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru gyda phrisiau fforddiadwy a chyson (Un Tocyn).

Rydym yn ailgynllunio gwasanaethau bysiau fel pe bai’n un cynnyrch cyfan. Mae hyn yn golygu ein bod yn ystyried popeth sy’n effeithio ar brofiad y cwsmer sy’n teithio ar fws, o olwg y bws a’r amserlen rydym yn ei chreu, i’n trefniadau gyda gweithredwyr yn y cefndir.



**Un Rhwydwaith:** Rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy’n cael ei drefnu ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae pob dull o deithio wedi’i integreiddio. Bydd yn hawdd ei ddefnyddio, gyda gwybodaeth glir i deithwyr a seilwaith da, wedi’i gynllunio er lles cymdeithas, gan wneud y gorau o’r cyllid sydd ar gael.



**Un Amserlen:** Gall amserlenni wedi’u cydlynu integreiddio gwasanaethau bysiau a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn rhoi mwy o ddewis i bobl.



**Un tocyn:** Tocynnau syml a phrisiau fforddiadwy. Bydd pobl yn gallu defnyddio un tocyn ar draws bysiau a threnau.

# Llinell amser

Ar sail ein llinellau amser gweithio presennol, rydym yn amcangyfrif y byddwn yn cyrraedd y cerrig milltir allweddol canlynol rhwng 2024 a 2030. Bydd amserlenni manylach yn cael eu cyhoeddi wrth i'r map ffordd tuag at fasnachfreinio gael ei ddatblygu.

## 2024

- Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru wedi cydweithio i ddatblygu cynigion i wneud rhai gwelliannau i wasanaethau bysiau cyn i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym gan ffurfio 'Pont tuag at Fasnachfreinio' (mwy o fanylion ar dudalen 49).
- Gwaith yn parhau ar ddrafftio'r Bil.
- Mwy o lwybrau bysiau TrawsCymru yn cael eu rheoli gan Trafnidiaeth Cymru, wrth i'r contractau presennol ag awdurdodau lleol ddod i ben.
- Er mwyn paratoi ar gyfer dechrau'r gwaith ar barthau (gweler tudalen 47 am y cynlluniau ar gyfer parthau), mae Trafnidiaeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun y rhwydwaith ac wedi cyd-lofnodi ymrwymiad i ymgysylltu ar y cynllun hwn.

## 2025

- Bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i'r Senedd.
- Bydd Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu datblygu.
- Digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu yn dechrau codi ymwybyddiaeth am y broses ddiwygio'r bysiau ledled Cymru a bydd ymgysylltiad cyhoeddus yn dechrau yn yr ardal gyntaf.
- Dechrau caffael a pharatoi ar gyfer Pont tuag at Fasnachfreinio yng Nghanolbarth Cymru.
- Bydd system wybodaeth amser real yn cael ei chyflwyno i ddarparu gwybodaeth am oedi ac amseroedd cyrraedd i gwsmeriaid sy'n aros wrth safleoedd bysiau, trwy amrywiol gyfryngau fel sgriniau digidol a chodau QR.

## 2026

- Dylai'r ddeddfwriaeth newydd ddod yn gyfraith, gyda chytundeb y Senedd.
- Dechrau'r broses o gaffael masnachfraint ar gyfer y parth cyntaf.
- Cynlluniau i dreialu bysiau hydrogen yn Ne Cymru.
- Pont ar gyfer Masnachfreinio rhwydwaith Canolbarth Cymru yn dod yn weithredol.

## 2027 - 2030

- Cyflwyno masnachfreintiau gam-wrth-gam, gyda pharthau masnachfraint yn cael eu caffael, eu rhoi ar waith a'u rhedeg o dan reolaeth Trafnidiaeth Cymru. (Gweler tudalen 47 am ragor o fanylion).

## 2030 ymlaen

- Ar ôl masnachfreinio rhwydwaith bysiau Cymru, bydd y pecynnau masnachfraint yn cael eu hadolygu, eu hadnewyddu a'u mireinio.
- 39% o siwrneiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2030.

## Rhan dau

# Gwireddu'n gweledigaeth gyda'n gilydd



# Ffyrdd o weithio

Mae diwygio bysiau’n golygu newid y ffordd y caiff pethau’u rhedeg a sut y byddwn yn gweithio gyda’n gilydd. Ond mae hi o hyd yn hanfodol ein bod yn gweithio gyda’n gilydd i sicrhau canlyniadau gwell. Mae cydweithredu lleol a rhanbarthol yn ganolog i’n cynlluniau ar gyfer masnachfreinio bysiau.

Fel y prif bartner cyflawni, Trafnidiaeth Cymru sy’n gyfrifol am sicrhau bod y system drafnidiaeth yn cydlynu ac yn gyson ar draws y wlad. Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am ddwyn Trafnidiaeth Cymru i gyfrif wrth wireddu Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid lleol fesul rhanbarth i adolygu rhwydweithiau bysiau a blaenoriaethu’r gwasanaethau pwysicaf i gymunedau. Mae’r gwaith hwn yn helpu i drefnu cyllid cenedlaethol ar sail gwybodaeth leol ac yn unol â blaenoriaethau lleol.

Bydd y timau rhanbarthol hyn yn cyfrannu at banel cenedlaethol lle byddwn yn dod â phedwar cynrychiolydd rhanbarthol o lywodraeth leol ynghyd, yn ogystal â chynrychiolwyr gweithredwyr, teithwyr ac undebau llafur, i ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer diwygio bysiau. Mae’r cydweithredu hwn yn hollbwysig i ddod â’r rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried gofynion hirdymor. Bydd y pum ffordd o weithio yn sail i’n trywydd ar gyfer masnachfreinio bysiau.

### Cydweithio

Rhaid cydweithio a chyd-ddatblygu wrth fasnachfrein-io’r bysiau.

### Integreiddio

Gall trafnidiaeth gyhoeddus well roi hwb uniongyrchol i wireddu’r saith nod llesiant. Bydd angen parhau i ystyried manteision ehangach masnachfreinio bysiau wrth i ni symud ymlaen.

### Cyfranogi

Mae’n bwysig ein bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y broses gynllunio a chyflawni.

### Hirdymor

Hirdymor – cadw’r ddysgl yn wastad rhwng anghenion byrdymor a’r angen i ddiogelu anghenion hirdymor.

### Atal

Trwy fynd i’r afael â phroblemau heddiw, gallwn weithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol.

# Hwyluso cydweithio

Dylai pob parti perthnasol fod yn rhan o bob cam o'r broses. I'r perwyl hwn, bydd Trafnidiaeth Cymru'n:

- Hwyluso'r cysylltiadau cynllunio cydweithredol cenedlaethol a rhanbarthol.
- Rhoi cyngor, cefnogaeth a gallu technegol i helpu i ddarparu rhwydwaith gwell.
- Sicrhau cysondeb wrth roi masnachfreintiau ac ystyried anghenion partneriaid ledled Cymru.
- Integreiddio â rheilffyrdd a theithio llesol a dulliau trafnidiaeth eraill.

## Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol

Bydd y rhwydwaith bysiau'n dal i gynnwys cyfuniad o wasanaethau lleol, gwasanaethau rhanbarthol a gwasanaethau trawsffiniol, yn ogystal â llwybrau integredig TrawsCymru ar gyfer teithiau pell. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn hwyluso'r trefniadau i awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaid allweddol eraill gyd-ddatblygu'r rhwydwaith, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gysylltu'n strategol ledled Cymru a'i integreiddio â dulliau teithio eraill.

Disgwylir i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig rhanbarthol gynhyrchu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRhau) erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r CTRhau yn amlfoddol, hynny yw mae pob dull teithio yn dod o fewn y cynllun. Ym mhob rhanbarth bydd pob partner sector cyhoeddus yn gweithio i roi un CTRh unedig ar waith. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau bod y rhwydwaith masnachfreintiau'n ategu'r CTRhau amlfoddol ac wedi'i hymgorffori ynddynt, gyda'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth gefn i hynny.

Bydd ei gwneud hi fel hyn yn rhoi cyfleoedd i awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru wella profiad teithwyr a'u hannog i newid eu hymddygiad ar lefel rhanbarth ac ardal. Er enghraifft, gellir cyflwyno cynlluniau strategol ar gyfer mesurau lleol i roi blaenoriaeth i fysiau a seilwaith teithio llesol i osgoi mannau lle ceir llawer o dagfeydd, hynny er lles y rhwydwaith ehangach.

# Partneriaeth gymdeithasol a chysylltiadau diwydiannol

Rydym yn gweithio'n agos gydag undebau llafur yn unol â fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol Trafnidiaeth Cymru. Fframwaith y Bartneriaeth Gymdeithasol fydd yn arwain ein hymwneud â'r undebau llafur a'r holl bartneriaid allanol o hyd.

Mae cysylltiadau diwydiannol yn bwnc cymhleth, gyda gwahanol gytundebau cydnabod a hawliau bargeinio ar draws cwmnïau. Gan gydnabod y gwahaniaethau hyn, rydym wedi ymrwymo i weithio gydag undebau llafur. Maen nhw'n rhanddeiliaid pwysig wrth i ni wireddu'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru.

Ar ben hynny, er mwyn gallu goruchwylio a llywodraethu, mae Trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu fframwaith o gyfarfodydd â Phartneriaid Cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod gofynion gweithredol a strategol yn cael eu diffinio'n dda a bod strategaethau sy'n ffrwyth gwaith meddwl trylwyr i'w cefnogi ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithlon ac yn effeithiol.

Wrth symud ymlaen, pwynt allweddol i ni fydd parhau i weithio'n agos gydag undebau llafur drwy fframweithiau'r Bartneriaeth Gymdeithasol a Chysylltiadau Diwydiannol.



# Cael pobl i ddod gyda ni

Mae Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal trafodaeth agored a gonest am fysiau gyda phobl Cymru a'r gororau. Mae deall blaenoriaethau ein rhanddeiliaid a'n cymunedau yn hollbwysig i ni allu adeiladu'r rhwydwaith bysiau sydd ei angen ar Gymru.


Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau drwy ein seilwaith cynghori trafnidiaeth amlfoddol sydd wedi'i hen sefydlu, gan ddod â chynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig at ei gilydd (gweler ffigur 2.1).

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau drwy ein seilwaith cynghori trafnidiaeth aml-foddol sydd wedi'i hen sefydlu, gan ddod â chynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig at ei gilydd (gweler ffigur 2.2).

Mae ein seilwaith cynghori trafnidiaeth aml-foddol a'n fframwaith ymgysylltu ar gyfer diwygio'r bysiau yn mynd i'n helpu i:

- Gydweithio gyda rhanddeiliaid, gan elwa ar eu hadnabyddiaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal.
- Deall anghenion y cyhoedd er mwyn gallu darparu rhwydwaith bysiau sy'n rhoi'r teithiwr yn gyntaf.
- Cyrraedd y rhai sy'n wynebu rhwystrau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd a'u sbarduno i newid eu dulliau teithio.
- Sicrhau bod pob partner yn glir ynghylch ei rolau a'i gyfrifoldebau.


## Ffigur 2.1: Y seilwaith gynghori ar deithiau amlfoddol



- Dod â phartneriaid ynghyd i osod cyfeiriad strategol ar y cyd ar gyfer dyfodol gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflwyno wrth i ni baratoi, cyflwyno a rheoli'r rhwydwaith o fasnachfreintiau. Bydd rhanddeiliaid a chymunedau yn cael eu cynnwys, eu hysbysu a'u clywed.

## Ffigur 2.2 Y Fframwaith Ymgysylltu ar gyfer Diwygio'r Bysiau



# Diwallu anghenion poblogaeth amrywiol Cymru

Mae penderfyniadau am wasanaethau bysiau yn cael effaith anghymesur ar fenywod; pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl anabl; pobl hŷn a phobl iau; a'r rhai sydd â gwaith cyflog isel neu ansicr.[20] Mae rhai o aelodau'r grwpiau hyn yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar, ac yn fwy tebygol o ddefnyddio a dibynnu ar fysiau a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus.[21] Mae tystiolaeth o ragfarn barhaus ar sail rhyw yn y ffordd y mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei chynllunio a'i darparu.[22]

Mae diffyg diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fater y mae pobl LGBTQ+ yn aml yn sôn amdano.[23] Mae bron i chwarter y bobl drawsryweddol yn y DU yn osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus rhag cael eu haflonyddu neu eu datgelu fel pobl drawsryweddol.[24] Mae diffyg diogelwch a hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn y DU yn destun pryder ymhlith pobl a menywod du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig hefyd.[25]

Mae'n hanfodol ein bod yn siarad â grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac yn gweithio gyda nhw i ddiwallu eu hanghenion. I wneud hyn, byddwn yn holi panel hygyrchedd a chynhwysiant Trafnidiaeth Cymru sydd â phobl â nodweddion gwarchodedig yn aelodau ohono. Mae'r panel yn cael ei estyn i gynrychioli mwy o bobl.

Lansiodd Trafnidiaeth Cymru ei Siarter Plant a Phobl Ifanc yn 2023 ac mae wrthi'n sefydlu Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc eleni. Bydd y paneli yn helpu i graffu ar bolisïau bysiau perthnasol. Byddan nhw'n ein cynghori ar sut i ennyn sylw teithwyr a'u cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau bws. Byddan nhw'n ein helpu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu defnyddwyr a'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio'r bysiau ac i drafod sut i gael pobl i newid eu dulliau teithio.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei weithlu'n gynrychioliadol o'i ddefnyddwyr. Mae Trafnidiaeth Cymru yn trysori amrywiaeth. Mae'n benderfynol o fod yn un o gyflogwyr mwyaf cynhwysol Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i greu rhwydwaith trafnidiaeth cynhwysol y gall Cymru fod yn falch ohono.



# Cyfathrebu'r newidiadau

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys a'u hysbysu drwy gydol y cyfnod pontio i Ddiwygio'r Bysiau.

**Amcanion cyfathrebu allweddol**

- Codi Ymwybyddiaeth – helpu pobl i ddeall manteision y model masnachfreinio newydd, gan gynnwys gwell cysylltedd, mwy fforddiadwy, a llai o effaith amgylcheddol.
- Meithrin Ymddiriedaeth – egluro'n glir ein rôl yn y trawsnewidiad a meithrin hyder yn ein gallu i gyflawni.
- Annog Cydweithredu – gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gweithredwyr, teithwyr a rhanddeiliaid i gysoni ymdrechion a chyfleu un neges unedig.

**Sut byddwn ni'n cynnwys pobl**

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu'n glir ac yn gyson ac i gynnwys y gymuned, megis:

- Adnoddau Gwe Pwrpasol – bydd gwefan TrC yn cynnwys diweddariadau, cwestiynau cyffredin, a llinell amser ryngweithiol.
- Gweithgareddau Ymgysylltu – bydd digwyddiadau cyhoeddus, fforymau rhanddeiliaid a stondinau dros dro yn darparu ffyrdd uniongyrchol o rannu gwybodaeth a chasglu adborth.
- Cyfryngau Cymdeithasol – bydd diweddariadau, straeon ac ymgyrchoedd rheolaidd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd ac yn tynnu sylw at gerrig milltir allweddol.
- Sylw yn y Cyfryngau – bydd datganiadau i'r wasg ac ymgyrchoedd wedi'u targedu yn lledaenu'r neges yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol.
- Cynnwys Addysgol - bydd fideos, ffeithluniau a chanllawiau yn egluro'r newidiadau a'u manteision.

**Themâu'r negeseuon allweddol**

- Canolbwyntio ar y Cwsmer – gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn syml, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy.
- Cyfrifoldeb Amgylcheddol – cefnogi nodau hinsawdd Cymru drwy ddarparu bysiau glanach a lleihau'r ddibyniaeth ar geir.
- Cydweithio – gweithio gyda'n ilydd i lunio rhwydwaith trafnidiaeth sy'n diwallu anghenion y gymuned.

Drwy gyfathrebu rhagweithiol a thryloyw, ein nod yw arwain Cymru ar y daith gyffrous hon tuag at system trafnidiaeth gyhoeddus o'r radd flaenaf. Byddwn yn darparu diweddariadau'n rheolaidd ar sut bydd y trawsnewid hwn o fudd i gymunedau a phobl Cymru.

# Ein hymrwymiad i gynnwys y gymuned

Wrth i ni ddechrau ar ein gwaith o fasnachfreinio'r cyntaf o'r pedwar parth (gweler tudalen 47), byddwn yn cyhoeddi ymrwymiad ymgysylltu rhanbarthol sy'n amlinellu manylion ein cynlluniau ar sut i gynnwys cymunedau lleol. Bydd yr ymrwymiad yn canolbwyntio ar gasglu barn defnyddwyr gwasanaeth lleol a defnyddwyr gwasanaeth posibl er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu rhwydwaith y mae pobl leol yn dymuno ei weld ac yn mynd i'w ddefnyddio.

Gan y bydd y newid i fasnachfreinio yn digwydd dros nifer o flynyddoedd, ac o ganlyniad i'r cymhlethdodau ar draws y rhwydwaith a'r cymunedau amrywiol a wasanaethir, rydym yn ymrwymo i gyhoeddi cynllun diwygiedig ar gyfer pob parth cyn i'r masnachfraint ddod yn weithredol sydd wedi'i deilwra'n arbennig i bob un.

Bydd pob cynllun yn manylu ar:

- pryd byddwn yn ymgysylltu'n frwd â chymunedau, defnyddwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth posibl yn y rhanbarth ynghylch ail-fasnachfreinio'r parth
- yr eitemau penodol rydym yn gofyn iddynt roi eu barn, eu safbwyntiau a'u hadborth arnynt
- sut byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol
- pa randdeiliaid lleol – ochr yn ochr â'r cyhoedd – byddwn yn ymgysylltu'n frwd â nhw yn y rhanbarth.

Rydym nawr yn llunio'r cynllun hwn gyda'n rhanddeiliaid a byddwn yn defnyddio'r gwahanol ddulliau cyfathrebu a nodir uchod, yn ogystal â phlatfform ymgysylltu ar-lein.

Bydd y platfform 'Dweud eich dweud' yn cael ei gynnal ar safle TrC a'i hyrwyddo'n eang yn yr ardal. Bydd yn cynnwys gwybodaeth a deunydd manwl sy'n benodol i'r parth a bydd pawb yn gallu cyfrannu ato. Bydd yna borth ar gyfer casglu adborth lleol, cyn ac yn ystod masnachfreinio pob rhanbarth.

# Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid TrawsCymru T1

Mae llwybr bysiau T1 yn rhedeg rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Hwn oedd y gwasanaeth TrawsCymru cyntaf i gael ei gontractio gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, gwnaethom gaffael a darparu bysiau trydan newydd a depo bysiau pwrpasol. Cynhaliwyd gwasanaeth bws rheolaidd yn ystod y cyfnod pontio hwn. Drwy hynny, sicrhawyd bod teithwyr yn dal i elwa ar y gwasanaeth.

Trwy siarad â'r cyhoedd a gweithio gyda'r awdurdodau lleol, rydym wedi gallu ystyried anghenion cymunedau lleol. Roedd y ddeialog hon yn hanfodol er mwyn sicrhau y byddem wrth gynllunio llwybrau yn cysylltu cymunedau â'i gilydd ac yn ategu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus arall.

Cynhaliwyd dyddiau ymgysylltu cyn lansio ar gyfer cymunedau sy'n byw ac yn teithio ar y llwybr. Cawsant eu trefnu ar y cyd gan Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i ddangos y bysiau, yr amserlen a'r prisiau newydd.

Daeth amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd ar gyfer y lansiad mawr, gan gynnwys cymdeithasau teithwyr, sefydliadau trafnidiaeth, y cyfryngau, aelodau etholedig lleol a chenedlaethol, cyflenwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Cafodd 100,000fed teithiwr y gwasanaeth ei gludo ym mis Gorffennaf 2023 yn dilyn ei ail-lansio ar 26 Mawrth 2023. Dros y cyfnod hwnnw (Ebrill-Gorffennaf 2023) cludodd y T1 tua 44% yn fwy o deithwyr o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022.[26]

Yn 2023/24, ychwanegwyd llwybrau T1C, T2, T3, T6 a T10 at bortffolio Trafnidiaeth Cymru. Mae gan bob llwybr TrawsCymru ei grŵp cyflawni o dan ofal Trafnidiaeth Cymru, sy'n cyfarfod bob pedwar mis. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, gweithredwyr bysiau a Defnyddwyr Bysiau Cymru. Trafnidiaeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am gaffael, ac am fonitro perfformiad ac ansawdd. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod safon y fanyleb a'r gweithrediad yn fwy cyson ledled Cymru.






## Rhan tri

# Dylunio rhwydwaith bysiau'r dyfodol

# Y 'cynnyrch cyfan'

Er mwyn gwireddu amcanion Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn byddwn yn edrych mewn ffordd holistig ar y ffordd yr ydym yn rhedeg, yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau bysiau. Trwy ganolbwyntio ar y 'cynnyrch cyfan', rydym yn dilyn proses sydd â strwythur iddi sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac sy'n hawdd ei hailadrodd.

## Egwyddorion y 'cynnyrch cyfan'

**Rhannu'r rhwydwaith yn segmentau:** Deall pwy sy'n symud o amgylch y rhwydwaith, pam a sut maen nhw'n symud.

**Dylunio rhwydwaith:** Defnyddio data a chydweithio i ddylunio rhwydwaith sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid ac sy'n denu teithwyr newydd.

**Adnoddau effeithlon:** Osgoi dyblygu a chymhlethdod yn y rhwydwaith.

**Amserlen a chysylltiadau:** Cynhyrchu amserlenni hawdd eu deall sy'n gwella dibynadwyedd ac amseroedd cysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus arall.

**Cynaliadwyedd ariannol:** Sicrhau bod y rhwydwaith yn gynaliadwy yn ariannol drwy ei wneud yn fwy effeithlon a chynyddu nifer y teithwyr. Rydym am ailfuddsoddi refeniw i barhau i wella gwasanaethau a chael gwerth ein harian.

**Brandio:** Creu brand cynhwysol ar gyfer y rhwydwaith bysiau. Byddwn yn ei ddefnyddio i gyfleu'r gwelliannau yr ydym yn eu gwneud er lles ein cwsmeriaid.

**Ansawdd y fflyd a'r gwasanaeth:** Bydd safonau cyson o ran y cerbydau a'r lifrai yn helpu i ddenu teithwyr.

**Gwybodaeth i deithwyr a seilwaith:** Safoni gwybodaeth wrth safleoedd bysiau, gorsafoedd bysiau ac ar-lein i helpu teithwyr i gynllunio teithiau ac archebu tocynnau.

**Dylunio a chaffael contractau:** Rhannu'r rhwydwaith yn becynnau contract daearyddol a chyflwyno proses gaffael effeithiol, a fydd yn gwneud ceisio am gontract yn broses sy'n hygyrch i weithredwyr bach, canolig a mawr.

**Trefniadau prisio a thocynnu:** Symleiddio prisiau tocynnau a chyflwyno tocynnau integredig ar draws gweithredwyr a dulliau teithio.

# Sherpa'r Wyddfa fel 'cynnyrch cyfan'

Lansiwyd gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn haf 2022. Cafodd y gwasanaeth ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddatblygu gan awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru mewn cydweithrediad â Pharc Cenedlaethol Eryri a'r gweithredwr bysiau.

Mae nifer yr ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Eryri wedi cynyddu, gan arwain at broblemau parcio a thagfeydd difrifol. Cyflwynwyd gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa i helpu i gydbwyso anghenion trigolion a busnesau lleol ag anghenion ymwelwyr.

Gan weithio ar y cyd â nifer o randdeiliaid, o dan arweiniad Trafnidiaeth Cymru, aed ati i aildrefnu'r gwasanaeth. Rydym wedi gwneud nifer o welliannau gan gynnwys:

- dileu dyblygiadau yn y gwasanaeth
- gwella cyfleoedd cysylltu
- integreiddio â dulliau teithio eraill yn well
- strwythur prisiau mwy cyson
- ail-frandio er mwyn gallu adnabod a hyrwyddo'r gwasanaeth newydd
- helpu awdurdodau lleol i gyfuno ac ail-becynnu contractau
- newidiadau tymhorol i'r amserlen i ateb y galw.

Rydym wedi gwella profiadau teithwyr trwy gynllunio teithiau ar-lein, gwefan newydd ac amserlenni digidol.

Mae'r strwythur prisiau fforddiadwy yn golygu bod teithio ar fws yn ddewis deniadol a rhad yn lle teithio mewn car. Yn ystod yr haf mae amserlen lawnach i gefnogi twristiaeth. Mae dulliau talu haws a thecach wedi'u cyflwyno, gan gynnwys taliadau digyswllt a chapio faint a delir trwy dechnoleg Tapio i Mewn ac Allan.

Ers cyflwyno'r gwasanaeth newydd, mae nifer y teithwyr a'r refeniw wedi cynyddu. Yn ystod 2022/23 gwnaeth dros 370,000 o deithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth, 38% yn fwy na'r flwyddyn cynt.[27]

Y rheswm am y twf hwn yw'r cynnydd mewn twristiaeth yn Eryri a mwy o reolau parcio, ochr yn ochr â gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae nifer y ceir sy'n teithio i Barc Cenedlaethol Eryri yn gostwng. Mae'r newid hwn yn ymddygiad teithwyr yn galonogol. Trwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn darparu gwybodaeth well, bysiau amlach a gwasanaeth haws ei ddefnyddio. Mae'n dod â manteision i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac yn annog pobl i newid eu dull o deithio, yn lle'r car.

# Cynllunio’r rhwydwaith

Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cydweithio i greu gweledigaeth ar gyfer y rhwydwaith masnachfreintiau bysiau. Mae set o egwyddorion wedi’u creu i lywio dyluniad y rhwydwaith yn y dyfodol. Rydym am barhau i gyd-greu’r rhwydwaith bysiau yn y dyfodol gyda’n partneriaid. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhwydwaith yn fforddiadwy, yn gyraeddadwy, yn dod â budd i gymunedau ledled Cymru, a bod modd ei ehangu. Gyda’n gilydd, byddwn yn esblygu’r rhwydwaith bysiau, gan addasu i anghenion cwsmeriaid wrth iddyn nhw newid.

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu cyfres o egwyddorion ar gyfer llunio’r rhwydwaith yn y dyfodol. Sail yr egwyddorion hyn yw uchelgais Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn ac amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Bydd yr egwyddorion hyn yn ein helpu i ddarparu’r rhwydwaith mwy effeithlon, cydlynol a dibynadwy y mae Cymru’n ei haeddu ac y gall teithwyr ymddiried ynddo. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i fabwysiadu’r egwyddorion hyn.

Bwriedir i egwyddorion cynllunio’r rhwydwaith fod yn sylfaen ar gyfer llywio a thywys y gwaith o ddylunio’r rhwydwaith. A bydd partneriaid yn ategu’r gwaith hwnnw i ddatblygu rhwydwaith bysiau lleol y dyfodol.

Yn dilyn asesiad llwyddiannus o’r rhwydwaith yn Ngwynedd (gweler yr astudiaeth achos isod) ac o arferion gorau ar gyfer dylunio rhwydweithiau mewn mannau eraill, rydym yn hyderus bod yr egwyddorion hyn yn gadarn. Rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl gweithredu pob un o’r naw egwyddor bob amser. Bydd y blaenoriaethau’n cael eu cydbwyso er mwyn sicrhau’r canlyniad gorau i deithwyr. Er enghraifft, efallai y bydd angen newid amlder gwasanaeth i ateb y galw brig ar rai coridorau prysur neu gadw cysylltiadau â hybiau allweddol. Byddwn yn ailedrych ar yr egwyddorion hyn wrth i ni ddatblygu’r rhwydwaith i sicrhau eu bod yn dal i ateb y diben.

# Egwyddorion cynllunio'r rhwydwaith

**Cynllunio un rhwydwaith unedig:** Cynllunio a threfnu gwasanaethau i greu rhwydwaith unedig sy'n gwneud synnwyr, yn hawdd ei ddeall ac wedi'i gydlynu.

**Sefydlu rhwydwaith craidd sy'n cysylltu'r prif gyrchfannau:** Y rhwydwaith craidd fydd asgwrn cefn parhaol y rhwydwaith lleol neu ranbarthol integredig.

**Gwasanaethau lleol a gwasanaethau bwydo o amgylch y craidd:** Dylid ffurfio gwasanaethau bwydo a lleol o amgylch y rhwydwaith craidd, gyda gwasanaethau llai aml a / neu sy'n ymateb i'r galw.

**Gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer llinellau bws craidd:** Dylid trefnu'r gwasanaethau bysiau craidd fel cyfres o wasanaethau llinell syth heb fawr o ddargyfeirio.

**Llwybrau cyson:** Dylai gwasanaethau bysiau gadw at yr un llwybr bob amser o'r dydd (gyda rhai opsiynau eraill ddechrau/diwedd y dydd). Bydd hyn yn gwneud y rhwydwaith yn haws ei ddeall ac yn lleihau cymhlethdodau wrth ei weithredu.

**Cydlynu gwasanaethau ar goridorau a rennir:** Dylid rhesymoli gwasanaethau ar goridorau a rennir i ddarparu llwybrau rheolaidd i wneud y system yn effeithlon ac yn hawdd ei deall.

**Integreiddio a chydlynu gwasanaethau amlfoddol gydag amseroedd trosglwyddo ac aros cyfleus:** Dylid cydlynu gwasanaethau bysiau i greu rhwydwaith integredig i sicrhau'r cysylltiadau gorau posibl rhwng gwasanaethau a gwella'r ystod o gyrchfannau.

**Ymadawiadau yn ôl y cloc:** Amseroedd gadael cyson bob awr yn ôl y cloc (er enghraifft, 00 a 30 munud wedi bob awr) i helpu teithwyr i ddeall y gwasanaethau'n well.


**Oriau gweithredu cyson: mae** Oriau gweithredu cyson ar draws rhwydwaith yn gwella dealltwriaeth o'r rhwydwaith i deithwyr ac yn rhoi sicrwydd wrth drosglwyddo.

# Defnyddio'r egwyddorion cynllunio rhwydwaith yng Ngwynedd

Bu Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ailddylunio rhwydwaith dros dro y rhanbarth gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn. Mae peth o'r gwaith ailddylunio hwn bellach wedi'i wneud. Dangosodd ymarfer modelu pan fydd y rhwydwaith cyfan wedi'i ailddylunio, y byddai bron i 40% o aelwydydd yn elwa o wasanaethau amlach yn y rhanbarth. Dangosodd y gallai'r newidiadau arfaethedig fwy na dyblu nifer yr aelwydydd a fyddai'n gallu mynd i leoedd pwysig fel Stryd Fawr Abermaw, Ysbyty GIG Cymru Alltwen a Phrifysgol Bangor.[28]

Er bod y rhwydwaith dros dro yng Ngwynedd yn cael ei fireinio drwy'r amser gan ddibynnu ar faint o arian sydd ar gael, mae canlyniadau'r modelu yn addawol iawn. Gwnaeth y dadansoddiad hwn gadarnhau bod yr egwyddorion cynllunio'n rhai cadarn.

**Ffigur 3.1: Map o Wynedd**



# Dibynnu ar y data

Mae Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio offer arloesol i’w helpu i lunio gwasanaethau bysiau’r dyfodol. Mae arnom angen data o ansawdd uchel i wneud hyn.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno Gwasanaeth Data Bysiau Cymru i gasglu a storio data bysiau’n ddiogel. Lle mae data ar gael, gall Trafnidiaeth Cymru:

- Fonitro tueddiadau teithwyr ar fysiau a’r galw am wasanaethau.
- Deall y galw ymhlith teithwyr er mwyn modelu’r refeniw rydym yn disgwyl i wasanaethau bysiau ei gynhyrchu.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi rhannau’r rhwydwaith sy’n effeithio ar berfformiad gwasanaethau i weithredwyr, er mwyn i ni allu gwella’r seilwaith o bosib.
- Profi ac efelychu’r rhwydwaith a’r amserlen arfaethedig mewn amgylchedd rhithwir er mwyn cynnig gwelliannau i wasanaethau a sicrhau’r perfformiad gorau posibl.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru Uned Dadansoddi Geo-ofodol a Strategol. Mae’r uned yn defnyddio data ffôn symudol i fesur y galw am drafnidiaeth ar draws pob dull teithio. Mae defnyddio setiau data teithio amlfoddol newydd fel hyn yn gymorth pwerus sy’n gallu helpu i ddylunio rhwydwaith sy’n cael pobl lle maen nhw eisiau mynd, pan maen nhw eisiau mynd.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu data. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn barhau i gael gafael ar setiau data cadarn yn y dyfodol. Bydd hynny’n rhoi’r modd i ni wneud penderfyniadau holistig am y rhwydwaith ar sail tystiolaeth.



# Y rhwydwaith bysiau ehangach

## Rôl fflecsi

Mae ein gwasanaeth bysiau fflecsi 'ar gais' yn codi ac yn gollwng cwsmeriaid lle maen nhw am gael eu codi a'u gollwng. Fel arfer, nid oes amserlen sefydlog gan fod y llwybrau'n newid yn ôl y galw.

Mae'r gwasanaeth fflecsi yn rhan allweddol o rwydwaith bysiau Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a bydd hynny'n parhau. Gellid cynnig gwasanaethau fflecsi mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau bws yn brin neu ddim yn bod.

Rydym wrthi'n nodi lle gallai fflecsi wella cysylltiad pobl â thrafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaethau bysiau sefydlog. Yn y dyfodol, bydd gwasanaethau fflecsi yn cael eu masnachfreinio.

## Rôl gwasanaethau trafnidiaeth lleol ychwanegol

Mae gan rai gweithredwyr bysiau fusnesau eraill. Efallai, yn ogystal â darparu gwasanaeth bysiau lleol, eu bod yn darparu gwasanaethau fel cludiant o'r cartref i'r ysgol, cludiant i gleifion a thrafnidiaeth gymunedol. Mae gweithredwyr eraill yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau cludiant lleol yn unig.

O dan y cynigion yn y bil newydd, bydd awdurdodau lleol yn cadw eu dyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd gwasanaethau cludiant cymunedol yn gallu parhau heb gontract masnachfraint ac ni fydd disgwyl i weithredwyr cludiant cymunedol fodloni amodau gwasanaethau masnachfraint. Ond bydd gweithredwyr cludiant cymunedol yn cael gwneud cais am gontract masnachfraint os bydd hynny'n briodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith hygyrch i bobl Cymru, i gysylltu pobl â'i gilydd, â chyfleoedd, ag addysg ac â gwaith. Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol a gweithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth lleol ychwanegol i gynllunio rhwydwaith cydgysylltiedig. Trwy weithio gydag awdurdodau lleol, gallwn ddeall lle gallai gwasanaethau bysiau â masnachfraint wella mynediad at ysgolion, addysg a gwasanaethau iechyd.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar gyfleoedd lle gall cynlluniau cludiant cymunedol ffynnu a sicrhau budd i gymdeithas.

# Rhwydwaith i Gymru a'r gororau

Mae gwasanaethau trawsffiniol yn hanfodol i economi Cymru. Maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gysylltu cymunedau yng Nghymru a Lloegr â'i gilydd yn ogystal â gweithleoedd, lleoliadau dysgu, a chanolfannau iechyd a hamdden. Rydym yn nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau trawsffiniol.

Bydd gwasanaethau trawsffiniol yn cael eu cynnwys yn y rhwydwaith a'r bwriad yw y bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cael eu masnachfreinio. Fodd bynnag, ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd ddim yn croesi drosodd rhyw lawer i Gymru, efallai y bydd trwyddedau'n fwy priodol. Mae Bil Gwasanaethau Bysiau Lloegr yn esgor ar gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau masnachfraint ar hyd y ffin. Mewn ardaloedd lle mae'r lle'r farchnad yn Lloegr wedi'i dadreoleiddio o hyd, rydym yn cynnig defnyddio cynllun trwyddedau. Bydd defnyddio trwyddedau yn caniatáu gwasanaethau i mewn i Gymru gan gynnal safonau ein rhwydwaith bysiau.

Gellid atodi amodau wrth y trwyddedau hyn i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gyson â safonau masnachfreintiau Cymru. Bydd angen i'r gofynion trwyddedau ar gyfer gwasanaethau trawsffiniol fod yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â'r system sydd ar waith ar gyfer y gweithredwyr perthnasol yn Lloegr, boed hynny'n gynllun masnachfraint ar sail awdurdod lleol neu'r system bresennol sydd wedi'i dadreoleiddio. Byddwn yn sicrhau bod y cynllun trwyddedau yn deg drwy weithio gyda gweithredwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rydym yn bwriadu llunio canllawiau cam-wrth-gam syml ar gyfer gweithredwyr sydd am wneud cais am drwydded. Er enghraifft, mae Transport for London wedi llunio canllawiau syml ar gyfer gweithredwyr sy'n dymuno rhedeg gwasanaeth y tu allan i'w rhwydwaith drwy'r London Service Permit.





## Rhan pedwar

# Gwireddu ein gweledigaeth

# Camau cyflawni

Mae'r adran hon yn disgrifio ein cynllun arfaethedig i fasnachfreinio bysiau, mewn pum cam cyflawni.

### Ffigur 4.1: Ein pum cam cyflawni




Bydd y camau cyflawni'n ailadrodd. Ar ôl sefydlu'r system fasnachfreinio yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y diwydiant i esblygu'r rhwydwaith. Bydd contractau masnachfreinio'n cael eu hadnewyddu a'u hadolygu. Bydd hyn yn ein galluogi i roi gwersi a ddysgir ar waith, nodi cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon a gwella profiad teithwyr.

Mae hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn addas i'r diben ac yn rhoi'r canlyniadau gorau i bobl Cymru.

# Cam darganfod a dylunio

Ar hyn o bryd rydym yn y cam darganfod a dylunio. Rydym yn canolbwyntio ar ailddylunio'r rhwydwaith a pharatoi system fasnachfreinio sy'n hyblyg, effeithlon ac yn ddeniadol i weithredwyr bysiau o bob maint. Bydd y cam hwn yn para tra bod y bil newydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd.



## Datblygu'r Rhwydwaith

Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth i ddylunio rhwydwaith sy'n cysylltu pob rhan o'r wlad ac sy'n diwallu anghenion lleol. Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cyd-greu rhwydwaith bysiau'r dyfodol. Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth i ddylunio rhwydwaith sy'n cysylltu pob rhan o'r wlad ac sy'n diwallu anghenion lleol. Mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cyd-greu rhwydwaith bysiau'r dyfodol. Mae ymgysylltu a chyd-ddatblygu gyda phartneriaid allweddol yn dal ati i adeiladu ar y weledigaeth hon. Wrth symud ymlaen, bydd hyn hefyd yn golygu ymgysylltu cyhoeddus yn rhanbarthol. Mae dull gweithredu a fydd yn mesur gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus wrthi'n cael ei ddatblygu. Rydym yn bwriadu cwblhau asesiad o'r rhwydwaith cyfan i ddeall sut y gall y newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith wella'r defnydd o fysiau ar lefel gwlad a rhanbarth. Gall hyn gynnwys cael dealltwriaeth o ba mor gyfleus yw'r rhwydwaith, pa mor dda mae'n cludo pobl i le maen nhw eisiau mynd, a pha mor dda mae'n cysylltu pobl â gwasanaethau trafnidiaeth eraill.

## Prosiectau braenaru

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal cyfres o brosiectau braenaru. Mae'r prosiectau braenaru hyn yn ein galluogi i brofi syniadau newydd a dilysu egwyddorion cynllunio mewn sefyllfa ymarferol.

Dyma rai o'r prosiectau braenaru:

- symud y cyfrifoldeb am wasanaethau TrawsCymru i Trafnidiaeth Cymru
- cyflwyno tocynnau gan fwy nag un gweithredwr drwy'r tocyn 1bws
- treialu tocynnau integredig ar fysiau a threnau
- cyflwyno tocynnau Tap Ymlaen, Tap Ymadael.



# Prosiect Braenaru TrawsCymru

Yn 2023, ychwanegodd Trafnidiaeth Cymru lwybr T1 TrawsCymru at ei bortffolio. Ers i T1 TrawsCymru symud i ofal Trafnidiaeth Cymru, rydym wedi gallu cyflwyno rhyngom ddatblygiadau newydd i'r gwasanaeth. Defnyddiodd Trafnidiaeth Cymru y dull 'cynnyrch cyfan', gan ganolbwyntio ar brofiad cyfan y cwsmer.

Roedd hyn yn cynnwys prynu bysiau gyda thu mewn o ansawdd uchel, gwella gwasanaeth a chefnogaeth i gwsmeriaid, gwella'r hyfforddiant i yrwyr a gosod safonau gweithredu o ansawdd uchel, gyda threfn monitro ansawdd. Mae teithwyr bellach yn elwa o system docynnu symlach, haws ei deall, yn sgil strwythur pris sengl is sy'n seiliedig ar bellter.

Mae tocyn TrawsCymru T1 wedi'i integreiddio'n llawn â'r rheilffyrdd ac mae gwefan ac ap newydd wedi'u datblygu i helpu teithwyr i gynllunio'u teithiau ac archebu tocynnau.

Drwy'r ap, bydd teithwyr yn gallu:

- Cynllunio teithiau a chyfrif eu harbedion carbon.
- Prynu tocynnau ar eu ffonau symudol.
- Tracio bysiau mewn amser real.

Rydym yn helpu i gysylltu teithwyr â gwasanaethau trenau yng ngorsafoedd Caerfyrddin ac Aberystwyth. Rydym wedi cyflwyno sgriniau byw ar fysiau, i ddarparu gwybodaeth am y tri thrên nesaf sy'n gadael y gorsafoedd trên dan sylw. Mae pob taith wedi'i chynllunio i gysylltu â theithwyr sy'n cyrraedd neu'n gadael ar y trên ar naill ben y llwybr.



# Ariannu'r rhwydwaith

Rydym yn hyderus y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig newydd yn creu'r amodau lle gallwn wella gwasanaethau bysiau Cymru. Byddwn yn gweithio o fewn y cyllid sydd ar gael i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Rydym yn datblygu model ariannol manwl a chynhwysfawr sy'n ystyried costau rhedeg y gwasanaethau a'r refeniw a ddaw trwy deithwyr. Y model hwn fydd yn llywio'r masnachfreinio.

Mae swm sylweddol o arian cyhoeddus wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu miliynau o bunnoedd o gyllid drwy'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau a'r Grant Rhwydwaith Bysiau i warchod gwasanaethau bysiau. Daeth arian cyhoeddus sylweddol hefyd trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bws, cymhorthdal awdurdodau lleol ac ad-daliad y tocynnau consesiwn. Byddai'n well buddsoddi'r arian cyhoeddus hwn trwy system fasnachfreinio.

Rydym am ailddyrannu arian y cronfeydd hyn i ddarparu rhwydwaith sydd wedi'i ddylunio o amgylch anghenion teithwyr. Bydd ailddyrannu arian yn creu system fwy syml i weithredwyr. Bydd yn cyfuno'r ffrydiau ariannu amrywiol hyn yn daliadau contract.

Rydym hefyd yn cynnig mabwysiadu model costau gros sy'n seiliedig ar gymhellion lle bydd Trafnidiaeth Cymru yn talu swm penodol i weithredwyr am redeg gwasanaeth penodedig. Trwy gymhellion ariannol, bydd gweithredwyr yn cael eu gwobrwyo am ddarparu gwasanaethau bysiau o ansawdd rhagorol. Mae'r model hwn yn golygu mai Trafnidiaeth Cymru fydd yn gyfrifol am reoli'r refeniw a ddaw o werthu tocynnau i deithwyr. Gellir ail-fuddsoddi'r refeniw hwn i gadw'r rhwydwaith i fynd a gwella gwasanaethau bysiau.

Mae defnyddio model costau gros yn golygu fodd bynnag mai Trafnidiaeth Cymru fydd yn agored i unrhyw ostyngiad yn y refeniw gwerthiant tocynnau. Ond bydd gostyngiad yn y refeniw o dan unrhyw system naill ai'n golygu bod angen cyllid ychwanegol neu benderfyniadau anodd ynghylch lleihau gwasanaethau. Mae'n iawn bod y penderfyniadau hyn, lle bo'u angen, yn cael eu gwneud gan ystyried lles y cyhoedd.

Mae hyn yn tanlinellu'r berthynas rhwng cynaliadwyedd ariannol a newid dull teithio. Mae cadw a thyfu'r defnydd o fysiau yn hanfodol i gynnal rhwydwaith sy'n ariannol gynaliadwy, ac mae rhwydwaith sy'n ariannol gynaliadwy, y mae pobl yn gwybod y gallant ddibynnu arno, yn hanfodol i ennyn hyder y bobl i ddefnyddio bysiau. Byddwn yn defnyddio'r model 'cynnyrch cyfan' i wneud bysiau mor hwylus a deniadol â phosibl i deithwyr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith bysiau yn gynaliadwy yn ariannol ac yn gallu creu cyfleoedd i dyfu.

## System docynnu syml, integredig

Byddwn yn datblygu system docynnu deg â strwythur iddi a fydd yn rhoi gwerth eu harian i deithwyr. Er mwyn sicrhau bod ein rhwydwaith bysiau yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, derbynnir sawl math o daliad.

Rydym am wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus mor syml â phosibl. Rhan allweddol o hyn yw darparu Un Tocyn y gellir ei ddefnyddio ar draws gwahanol ddulliau teithio cyhoeddus. Ein gweledigaeth yw y bydd tocynnau Tapio Ymlaen, Tapio Ymadael yn cael eu hintegreiddio'n llawn ar draws y dulliau gwahanol o drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn cyflwyno tocynnau Tapio Ymlaen, Tapio Ymadael ar fysiau a threnau.

Rydym wrthi'n datblygu un ap, a fydd yn ei gwneud hi'n syml cynllunio a threfnu teithiau o ddrws i ddrws ar draws ddulliau trafnidiaeth yng Nghymru. Byddwn yn symud apiau presennol Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys yr ap fflecsi ac ap TrawsCymru, i un ap Trafnidiaeth Cymru cyfunol.

## Safleoedd bysiau, seilwaith a gwybodaeth i gwsmeriaid

Mae safleoedd bysiau, seilwaith a gwybodaeth i gwsmeriaid yn rhannau pwysig iawn o brofiad y teithiwr. Ac yn rhan bwysig hefyd o'r model 'cynnyrch cyfan'. Rydym am ddarparu gwybodaeth hawdd ei chael am wasanaethau bysiau a rhoi gwybodaeth i deithwyr yn ystod eu teithiau. Rydym am ddarparu amserlenni a gwybodaeth amser real lle bo hynny'n briodol, trwy amrywiol sianeli.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol o hyd am ddarparu a chynnal safleoedd bysiau, gorsafoedd bysiau a phrif seilwaith bysiau. Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer seilwaith i sicrhau safonau cyson mewn safleoedd a gorsafoedd bysiau ledled Cymru. Er mwyn helpu awdurdodau lleol, rydym wedi cynnal archwiliad set ddata o leoliadau safleoedd bysiau ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i ddiweddaru'r set ddata hon.

# Seilwaith carbon isel

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau teithiau ceir a datgarboneiddio. Rhaid i ni wneud y peth iawn i'w wneud y peth hawsaf i'w wneud.

Rydym yn deall y gallai fflyd bysiau allyriadau isel o ansawdd uchel ddenu defnyddwyr newydd a chadw defnyddwyr cyfredol. Fel rhan o Gynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru, rydym yn dechrau ar y broses o newid i gerbydau allyriadau isel iawn (trydan yn bennaf) yng Nghymru. Ar gyfartaledd, mae bysiau Cymru yn hŷn na rhai gweddill y DU. O ganlyniad, maent yn llygru mwy.

Bydd yn rhaid i Trafnidiaeth Cymru a gweithredwyr gydweithio i ddarparu bysiau allyriadau isel iawn newydd ac unrhyw seilwaith cysylltiedig. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi hyn, drwy weithio ar y cyd â'r diwydiant, o fewn cyfyngiadau cyllido a chyflenwi, i wneud y gorau o'r broses o newid y fflyd yn un ddi-allyriadau dros amser. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymysgedd o fysiau allyriadau isel a di-allyriadau.

Rydym yn rhagweld y bydd Trafnidiaeth Cymru yn y pen draw yn prynu'r bysiau a ddefnyddir gan weithredwyr i redeg gwasanaethau masnachfraint, ond yn y tymor byr bydd cymysgedd o fysiau a ddarperir gan Trafnidiaeth Cymru a bysiau sy'n eiddo i weithredwyr. Pan fydd bysiau'n cael eu darparu gan Trafnidiaeth Cymru, gweithredwr y fasnachfraint fydd yn gyfrifol am eu gweithredu a'u cynnal.

Bydd angen depo a seilwaith gwefru ac ail-lenwi tanwydd i gefnogi gweithrediadau masnachfreintiau a'r newid i fflyd isel ei hallyriadau. Rydym yn bwriadu datblygu depos a seilwaith ategol trwy economi gymysg, gyda pherchnogaeth gyhoeddus a phreifat. Byddwn yn penderfynu fesul achos ai perchnogaeth gyhoeddus neu breifat ar ddepos fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau. Byddwn yn ystyried effaith cyfleusterau ar gystadleuaeth, a'r rhyngweithio â'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer coetsys a bysiau ysgol. Mae depos o dan berchnogaeth gyhoeddus yn hwb hefyd i ddatgarboneiddio. Gallen nhw ysgogi economi carbon isel ehangach i Gymru gan y byddai'r buddsoddiad hefyd yn cynnwys yr offer sydd ei angen ar gyfer gwefru neu ail-lenwi â hydrogen.

Rydym am sicrhau bod y depos yn sicrhau tegwch i weithredwyr. Mae'r contractau newydd ar gyfer gwasanaethau TrawsCymru yn dangos modelau diwygiedig lle rydym yn darparu'r fflyd a'r depos. Rydym am ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o hyn wrth ddarparu depos a fflyd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac yn profi ein cynlluniau gyda gweithredwyr bysiau i sicrhau'r ateb gorau y gallwn ei gael ar gyfer pob rhan o Gymru.

# Newid o injans diesel i rai trydan

Rydyn ni am ddeall yr opsiynau sydd ar gael i'n helpu i ddatgarboneiddio bysiau. Un opsiwn yw prynu bysiau allyriadau sero newydd. Mae technolegau eraill hefyd a allai ddatgarboneiddio teithio ar fysiau.

Er enghraifft, gellir trosi bysiau diesel i ddefnyddio batris trydan. Gelwir hyn yn adbweru. Mae adbweru bysiau'n cynnwys cael gwared ar yr injan a chydrannau eraill sy'n gysylltiedig â diesel a'u disodli â batris a chydrannau eraill cerbydau trydan perthnasol.

Mae adbweru bysiau'n opsiwn cynaliadwy ar gyfer newid ein fflyd bysiau. Byddai'n ein galluogi i gyfyngu ar nifer y bysiau y mae angen eu sgrapio yn y dyfodol agos, estyn hyd oes bysiau a gwneud y defnydd gorau o'r carbon corfforedig wrth hefyd ddileu'r holl allyriadau egsôst.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i economi gylchol. Byddwn yn sicrhau nad yw deunyddiau'n cael eu gwastraffu ac y gellir eu defnyddio cyhyd ag y bo modd. Gallai adbweru bysiau yng Nghymru hefyd greu swyddi medrus ac ysgogi twf.

Ar hyn o bryd rydym yn treialu adbweru bysiau ac wedi trosi dau gerbyd i fatri trydan. Rydym nawr yn disgwyl am yr ardystiad i gadarnhau eu bod yn addas i fod ar y ffordd cyn i ni ddechrau gwerthuso galluoedd y bysiau adbweru hyn ar waith yn y gwasanaeth. Wrth symud ymlaen, mae'n bosibl y bydd potensial i adbweru i hydrogen, gan ehangu'r cyfleoedd i gefnogi'r fflyd yn y dyfodol.



# Y cyfnod trosglwyddo a'r cam tendro

## Cyflwyno fesul ardal

Rydyn ni'n bwriadu trosglwyddo i system fasnachfreinio dros sawl blwyddyn, oherwydd maint y newid. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno'r system newydd fesul ardal. Er mwyn symleiddio'r broses o gyflwyno'r system newydd, ac yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd mewn mannau eraill, rydyn ni'n bwriadu rhannu Cymru yn barthau.

Mae'n bwysig nodi na fydd y parthau hyn yn cyfateb i gontractau masnachfreinio. Yn hytrach, bydd cyfres o gyfleoedd masnachfreinio ar gael ym mhob parth. Mae hyn yn debyg i ddull Transport for Greater Manchester lle mae masnachfreinio'n cael ei gyflwyno ar draws tair ardal wahanol.

Yn wreiddiol, fe wnaethom awgrymu naw parth masnachfraint ond ers hynny rydym wedi parhau i ymgysylltu â llywodraeth leol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chynrychiolwyr o'r diwydiant. O ganlyniad, cytunwyd y byddai'n well cywasgu'r broses i bedair ardal sy'n adlewyrchu ffiniau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Bydd diwygio'r bysiau mewn pedair ardal, sy'n adlewyrchu ffiniau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn helpu i:

- Alinio'r cynlluniau masnachfreinio â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Adeiladu ar y cydweithio rhanbarthol sydd eisoes yn digwydd ar draws awdurdodau lleol a chydlynu'r gwaith cynllunio.
- Lleihau'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â symud i'r system masnachfreinio a'i gwneud mor syml a didrafferth â phosibl.

Wrth edrych ar y drefn ar gyfer cyflwyno fesul ardal, rydym wedi ystyried y canlynol:

- Cymhlethdod y rhwydwaith, gan gynnwys symudiadau traws-sirol a thrawsffiniol
- Lefelau presennol o reolaeth a chystadleuaeth o fewn y parthau hynny[29]
- Y gallu i gynyddu refeniw yn yr ardal
- Cyfleoedd i ddatgarboneiddio bysiau.


Rydym yn bwriadu dechrau masnachfreinio yn Ne-orllewin Cymru.
Yn eu trefn, dyma'r amserlen waith bresennol ar gyfer cyflwyno masnachfreintiau:

1. De-orllewin Cymru (2027)
2. Gogledd Cymru (2028)
3. De-ddwyrain Cymru (2029)
4. Canolbarth Cymru (2030)

Byddwn yn darparu rhagor o eglurder ynghylch y llinell amser maes o law.

Byddwn yn cyhoeddi llinellau amser manwl i gynorthwyo gweithredwyr yn eu paratoadau i wneud cais am gontractau masnachfraint. Ein bwriad yw gwneud rhai gwelliannau i'r rhwydwaith a'r gwasanaethau bysiau cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym, yn enwedig yng Nghanolbarth Cymru lle mae'r rhwydweithiau wedi'u contractio gan awdurdodau lleol i raddau helaeth.

**Ffigur 4.2: Ardaloedd y masnachfreintiau posibl**



## Pontio i system fasnachfreinio

Rydyn ni am wella gwasanaethau cyn gynted â phosibl drwy bontio i system fasnachfreinio. Cyn inni ddechrau masnachfreinio'n ffurfiol, rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghanolbarth Cymru i wella'r rhwydwaith bysiau yn eu hardaloedd a gwella telerau contractau.

Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol gontractio llwybrau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn gymdeithasol. Yng Nghanolbarth Cymru, lle nad yw llawer o wasanaethau bysiau'n hyfyw yn fasnachol, mae rhan fwyaf y rhwydwaith eisoes yn cael ei dendro gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddechrau gwneud gwelliannau.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gweithredwyr a rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar wella'r rhwydwaith drwy gymhwyso egwyddorion craidd y rhwydwaith, defnyddio ein dull 'cynnyrch cyfan' a gwella contractau ar gyfer gwasanaethau wedi'u rhoi ar dendr gan awdurdodau lleol. Nod y pontio i fasnachfreinio yw cefnogi Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a'n partneriaid, gan gynnwys y diwydiant, i baratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil masnachfreinio. I deithwyr yn y rhanbarth hwn, rydyn ni am i'r pontio fod yn ddi-dor, gyda phobl eisoes yn elwa ar lwybrau ac amserlenni newydd.

## Trosglwyddo gwasanaethau sydd o dan gontract ar hyn o bryd

Mewn rhai rhannau o Gymru, mae cymysgedd o wasanaethau masnachol a gwasanaethau sy'n derbyn cymorth gan awdurdodau lleol. Mae rhai gwasanaethau'n cael eu hariannu'n rhannol drwy gymhorthdal gan awdurdodau lleol, er mwyn eu cefnogi yn ystod adegau pan nad ydyn nhw'n hyfyw yn fasnachol. Er enghraifft, maen nhw'n cael eu cefnogi i gynnal gwasanaeth ar y Sul neu wasanaethau rheolaidd yn ystod oriau tawel.

Fel rhan o'r broses o gynllunio'r rhwydwaith, mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut gall contractau presennol gyd-fynd â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r system newydd.

# Trosglwyddo gweithrediadau masnachol

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwahardd gweithredwyr bysiau rhag rhedeg gwasanaethau masnachol yn ôl eu disgresiwn. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i Gymru gyfan ar unwaith. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cymysgedd o fasnachfreintiau a gweithrediadau masnachol yn cydfodoli mewn rhannau o Gymru nes ein bod wedi cyflwyno'r system newydd yn llawn.

Rydyn ni'n datblygu trefniadau pontio i alluogi hyn. Er enghraifft, lle nad yw contractau masnachfreinio wedi cael eu cyflwyno mewn ardal hyd yn hyn, bydd gweithredwyr yn gallu parhau i redeg gwasanaethau fel y maen nhw'n gwneud nawr. Pan fydd gwasanaeth yn dechrau y tu allan i ardal dan fasnachfraint ond yn croesi drwy ardal masnachfraint, bydd yn gallu parhau i redeg nes bydd yr ardal y tu allan yn cael ei masnachfreinio. Er mwyn galluogi hyn, efallai na fydd y gwasanaeth yn newid rhyw lawer.

Byddai gwasanaethau newydd neu rai sydd wedi newid yn gallu gwneud cais am drwydded i groesi i'r ardal sydd o dan system fasnachfreinio. Bydd trwyddedau'n cael eu dyfarnu pan fydd gwasanaethau arfaethedig o fudd i deithwyr yng Nghymru, heb effeithio ar ein system drafnidiaeth gyhoeddus ehangach. Mae'n bosibl y bydd trwyddedau'n ddarostyngedig i amodau fel sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael i deithwyr ar yr un platfform â gwybodaeth am wasanaethau sydd o dan fasnachfraint.

Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr i roi cymaint o sicrwydd â phosibl wrth ddiwygio'r bysiau. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer gweithredu gwasanaethau masnachol yn ystod y cyfnod pontio i gefnogi gweithredwyr.



# Marchnad i Gymru

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae dros 60 o weithredwyr yn rhedeg gwasanaethau bysiau lleol a thua 20 o weithredwyr yn darparu gwasanaethau trafnidiaeth eraill sy'n rhedeg o dan drwydded neu drwydded tacsi.[30] Yn dilyn cyflwyno dadreoleiddio o'r 1980au ymlaen, cafodd nifer o weithredwyr trefol eu diddymu a'u prynu gan gwmnïau preifat. Heddiw, mae dau weithredwr bwrdeistrefol sy'n darparu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru.

Yn yr un modd ag yn y farchnad fysiau bresennol yng Nghymru, rhagwelir y bydd marchnad iach yn parhau i gynnwys gweithredwyr rhyngwladol, gweithredwyr trefol a busnesau bach a chanolig. Roedd y papur gwyn hefyd yn nodi ein cynlluniau i ganiatáu i awdurdodau lleol sefydlu gweithredwyr trefol newydd pe baen nhw'n dewis gwneud hynny. Rydyn ni am greu dull caffael sy'n denu gweithredwyr a all ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwerth cymdeithasol.

Mae parhau i weithio'n agos gyda'r farchnad yn bwynt gweithredu allweddol i ni er mwyn datblygu'r mecanweithiau mwyaf priodol fel bo gweithredwyr bach a chanolig, gweithredwyr trefol, a gweithredwyr rhyngwladol yn gallu cymryd rhan mewn marchnad wedi'i masnachfreinio.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r farchnad i drafod a phrofi dulliau o rannu'r rhwydwaith arfaethedig yn gontractau masnachfreinio. Bydd hyn yn ystyried amgylchiadau lleol ac yn annog gweithredwyr i wneud cynigion cystadleuol i ddarparu gwasanaethau bysiau.

Trafnidiaeth Cymru fydd yn arwain y broses gaffael a bydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth wneud hyn. Bydd y broses gaffael yn ceisio caniatáu i weithredwyr gystadlu am y contractau sydd fwyaf addas ar gyfer maint a natur eu busnes. Mae'r llwybrau caffael ar gyfer pob un o'r pecynnau hyn wrthi'n cael eu datblygu. Mae rhai dewisiadau'n cynnwys caffael gwasanaethau drwy gystadlaethau agored a gyhoeddir ar GwerthwchiGymru neu drwy fframwaith y bydd cyflenwyr yn gallu ymuno ag ef ar unrhyw adeg. Byddwn yn gofyn am adborth gan y diwydiant i helpu i siapio ein dull gweithredu

## Lliniaru risgiau posibl yn y farchnad

Fel rhan o'r gwahoddiad i dendro, bydd Trafnidiaeth Cymru yn nodi'r llwybrau a'r amserlenni neu'r amserau allweddol. Rydyn ni am weithio gyda gweithredwyr i ddylunio dull caffael sy'n rhoi digon o hyblygrwydd ar gyfer arloesi. Er enghraifft, gallai gweithredwyr nodi cyfleoedd ar gyfer arbed costau a gwella gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol.

Gall gweithredwyr bysiau gyflwyno ceisiadau. Bydd y rhain yn cael eu hasesu a'u gwerthuso o ran ansawdd gwasanaeth, profiad y cwsmer a gwerth am arian. Un o brif nodweddion ein proses gaffael fydd ystyried gwerth cymdeithasol, fel rhan o'n hymdrechion i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai cynnwys a mesur gwerth cymdeithasol ein galluogi i gynyddu'r manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â masnachfreinio gwasanaethau bysiau. Bydd yn sicrhau bod yr ymarfer caffael yn agored i fusnesau bach a chanolog. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i ddatblygu'r broses hon.

Mae diwygio'r bysiau'n debygol o leihau'r tebygolrwydd y bydd gwasanaethau bysiau'n dod i ben yn y tymor hir. Er ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn digwydd, er mwyn mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad, fel y gweithredwr yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, byddwn yn cyflwyno mesurau i ddiogelu gwasanaethau bysiau. Bydd ein cytundebau masnachfreinio'n disgrifio sut y bydd methiant yn y farchnad yn cael ei reoli.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig deddfu ar gyfer mecanwaith penodol i reoli sefyllfa pan fydd contract masnachfreinio a gwasanaethau'n methu. Byddwn yn gwneud trefniadau eraill os bydd contract yn methu. Byddwn yn ddarostyngedig i reolau caffael a chystadleuaeth, ond gallai'r rhain ganiatáu inni, er enghraifft, weithio gyda gweithredwyr masnachfreintiau eraill yn yr ardal i redeg y gwasanaethau, dyfarnu gwasanaeth dros dro neu wasanaeth newydd i weithredwr arall neu ddisodli gwasanaeth sydd wedi methu yn uniongyrchol.

# Diogelu swyddi

O dan system fasnachfreinio, bydd gyrwyr bysiau a phobl sy'n gweithio o fewn gweithrediadau bysiau'n parhau i gael eu cyflogi gan weithredwyr bysiau. Ni fyddan nhw'n cael eu cyflogi gan Trafnidiaeth Cymru.

Bydd ein fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol yn ein galluogi i ddeall sut y gellir diogelu swyddi gyrwyr a chydweithwyr gweithredol os nad yw gweithredwr presennol yn llwyddiannus wrth ennill contract. Gall Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) fod yn berthnasol ac yn darparu amddiffyniad i gydweithwyr.

Rydyn ni'n ymwybodol o uchelgeisiau undebau llafur i greu set safonol o delerau ac amodau ledled Cymru. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio ar y cyd ag undebau llafur i greu ateb ar gyfer Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gydag undebau llafur i alinio'r dull o ddatblygu ymrwymiadau Partneriaeth Gymdeithasol o dan y model masnachfreinio. Bydd hyn yn sicrhau amgylchedd gwaith cynhwysol a chynhyrchiol i weithredwyr presennol a newydd wrth iddynt ymrwymo i drefniadau Partneriaeth Gymdeithasol.

Cydnabu Bws Cymru (2021) yr heriau presennol yn y diwydiant bysiau a choetsis ynghylch argaeledd staff. Dangosodd fod brinder gyrwyr ac anawsterau wrth recriwtio gyrwyr newydd. Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r prinder gyrwyr wedi cynyddu. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio ac yn ymgysylltu'n agos ag undebau llafur a'r diwydiant i fynd i'r afael â'r heriau hyn.



## Rhan pump

# Sicrhau llwyddiant



# Cyflawni ein hamcanion

Bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwneud yn siŵr bod Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau bod y rhwydwaith bysiau'n cael ei ddylunio a'i ddatblygu mewn ffordd sy'n bodloni amcanion Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn.

Credwn y bydd system fasnachfreinio lwyddiannus yn ein galluogi i:

- Adeiladu rhwydwaith sy'n galluogi pobl i gyrraedd lle maen nhw am fynd.
- Cyrraedd ein targedau uchelgeisiol ar gyfer newid dulliau teithio a'r hinsawdd.
- Partnera gyda gweithredwyr bysiau i redeg diwydiant bysiau ffyniannus ac arloesol yng Nghymru.
- Darparu gwasanaethau bysiau effeithlon a dibynadwy.



## Perfformiad y rhwydwaith

Fel rhan o'r contractau masnachfreinio, byddwn yn pennu'r data y mae'n rhaid i weithredwyr bysiau ei rannu â Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac at ddibenion rheoli perfformiad. Mae'n debyg hefyd y bydd disgwyliad i rannu data fel rhan o'r amodau sydd ynghlwm wrth rai trwyddedau.

Ar hyn o bryd mae'r data sydd ar gael inni'n dameidiog. Byddwn yn gallu deall yn well y galw am deithio, perfformiad gwasanaethau bysiau a lle mae cyfleoedd i wneud gwelliannau.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn monitro ac yn dadansoddi'r data hwn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd. Er enghraifft, mae Trafnidiaeth Cymru eisoes yn cyhoeddi data am drenau ac mae Transport for London yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad rhwydwaith blynyddol a chrynodebau chwarterol ar eu gwefan. Ein nod yw darparu adroddiadau tebyg ar gyfer bysiau.

## Newid dulliau teithio a theithio integredig

Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer newid y ffordd mae pobl yn teithio. Un o'r prif bethau a fydd yn dangos llwyddiant diwygio'r bysiau yw faint rydyn ni'n helpu pobl i ddewis teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn lle mynd yn y car.

Er mwyn cefnogi'r newid hwn, mae darparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, sy'n cynnig gwasanaethau dibynadwy sy'n canolbwyntio ar deithwyr, yn hanfodol. Dylai teithwyr allu teithio'n ddi-dor rhwng dulliau teithio gwahanol yng Nghymru.



## Boddhad cwsmeriaid, manteision cymdeithasol a diogelwch

Rydyn ni am sicrhau bod teithio ar fysiau’n ffordd ddeniadol, ddibynadwy a hygyrch o deithio i bobl Cymru. Mae cwsmeriaid yn ganolog i’n cynlluniau. Byddwn yn rhannu siarter cwsmeriaid yn nodi ein hymrwymiadau.

Byddwn yn gwrando ar adborth ein cwsmeriaid a’n cymunedau lleol i wella gwasanaethau bysiau. Rydyn ni’n bwriadu casglu adborth drwy amrywiaeth o sianelau.

Yn y dyfodol bydd y rhain yn cynnwys:

- Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru
- gwaith ymgysylltu ar lawr gwlad
- canolfan gyswllt cwsmeriaid
- panel cwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru
- gwaith ymgysylltu â grwpiau teithwyr
- drwy’r cyfryngau cymdeithasol.

Bydd gwella gwasanaethau bysiau’n helpu i gysylltu pobl â lleoedd, cymunedau a chyfleoedd – a all sicrhau manteision cymdeithasol sylweddol. Rydyn ni am i deithwyr fod a theimlo’n ddiogel ar ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

## Esblygu ein dull o weithredu

Ar ôl masnachfreinio, rydym yn disgwyl y bydd y rhwydwaith bysiau yn esblygu a byddwn yn parhau i gyd-greu gydag awdurdodau lleol. Er enghraifft, bydd angen inni addasu pan fydd y galw am deithio’n newid. Gallai hyn gynnwys gwasanaethu datblygiadau tai newydd ac ymateb i gyfleoedd cyflogaeth. Pan fyddwn yn bwriadu gwneud newidiadau, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac yn ymgysylltu â chwsmeriaid. Bydd unrhyw newidiadau’n cael eu gwneud o fewn amserlen y cytunwyd arni. Byddwn yn hysbysu ein cwsmeriaid am unrhyw newidiadau pwysig i’r rhwydwaith.

Rydym yn bwriadu adolygu contractau masnachfraint wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Bydd hyn yn ein galluogi i ganfod cyfleoedd i amrywio manylebau contract er mwyn cael mwy o werth am arian a chynnig gwell profiad i gwsmeriaid. Byddwn yn ymgorffori’r gwersi a ddysgwyd wrth i ni ddiwygio’r gwasanaethau bysiau.

# Ôl-nodiadau


1 Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd: Sylfaen Tystiolaeth, Tueddiadau Data Trafnidiaeth, Mawrth 2021, t9.

2 Office for National Statistics, Census 2021, Car or van availability by country (Wales) [accessed February 2024].

3 Dadansoddiad TrC (2023). Ffynhonnell: EP Morris.

4 Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd: Sylfaen Tystiolaeth, Tueddiadau Data Trafnidiaeth, Mawrth 2021, t9.

5 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021, Argaeledd ceir neu fan yn ôl gwlad (Cymru) [cyrchwyd Chwefror 2024]

6 Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth, Dyfodol Symudedd: anghydraddoldebau o ran symudedd a mynediad yn y DU, Mawrth 2019. Grŵp Cyllideb Menywod y DU, Tuag at systemau trafnidiaeth sy'n gynhwysol o ran rhywedd ac yn gynaliadwy, Gorffennaf 2021. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Is Britain Fairer? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, 2018, Mehefin 2019, tt171-73. NatCen, Trafnidiaeth ac Anghydraddoldeb: Adolygiad tystiolaeth ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth, Hydref 2019. Yr Adran Drafnidiaeth, Arolwg Teithio Cenedlaethol: Lloegr 2022 Prif Ganlyniadau, Awst 2023, t2. Er bod yr arolwg yn seiliedig ar sampl o bobl sy'n byw yn Lloegr, gan y cyfeirir at bynciau datganoledig, gall adlewyrchu tueddiadau ehangach yn y DU.

7 Cafwyd 720 o atebion i'r cwestiwn 'A ydych chi'n cytuno bod angen newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau bysiau i ddiwallu anghenion pobl Cymru ac i ymateb i'r argyfwng hinsawdd?'. Roedd 84.6% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf ac 11.5% yn cytuno. Llywodraeth Cymru, Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru, Rhagfyr 2022, t7.

8 Yn 2021, trafnidiaeth oedd y sector pedwerydd mwyaf am allyrru nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac yn gyfrifol am 15% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr. StatsCymru, Allyriadau nwyon Tŷ Gwydr yn ôl blwyddyn [cyrchwyd Chwefror 2024].

9 StatsCymru, Allyriadau nwyon Tŷ Gwydr yn ôl blwyddyn [cyrchwyd Chwefror 2024].

10 Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021, t48; Cymru Sero Net - Dogfen Crynodeb, Hydref 2021, t13.

11 WPI Economics, Bysiau a Choetsys: Y llwybr at sero net yng Nghymru, 2023.

12 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021, Argaeledd ceir neu fan yn ôl gwlad (Cymru) [cyrchwyd Chwefror 2024].

13 Adran Drafnidiaeth, Teithiau consesiwn i deithwyr yn ôl gwlad: Prydain Fawr, yn flynyddol o'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2008, BUS01c [cyrchwyd Chwefror 2024]. Sylwer: mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 i 2024 yn rhai dros dro ar hyn o bryd.

14 Adran Drafnidiaeth, Teithiau consesiwn i deithwyr yn ôl gwlad: Prydain Fawr, yn flynyddol o'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2008, BUS01c [cyrchwyd Chwefror 2024]. Sylwer: mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 i 2024 yn rhai dros dro ar hyn o bryd.

15 O Gyfrifiad 2011. Nid yw Cyfrifiad 2021 wedi'i ddadansoddi eto. Swyddfa Ystadegau Gwladol, Dadansoddiad Cyfrifiad 2011 - Cymharu Ardaloedd Gwledig a Threfol Cymru a Lloegr, Tachwedd 2013, t9.

16 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021, Argaeledd ceir neu fan yn ôl gwlad (Cymru) [cyrchwyd Chwefror 2024].

17 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021, Argaeledd ceir neu fan yn ôl gwlad (Cymru) [cyrchwyd Chwefror 2024].

18 Wedi'u codi o Gomisiynwyr Traffig Prydain Fawr, Hysbysiadau PSV ac achosion i Gymru [cyrchwyd ym mis Chwefror 2024].

19 Adran Drafnidiaeth, Teithiau teithwyr ar wasanaethau bysiau lleol yn ôl ardal fetropolitan a statws trefol-gwledig, rhanbarth a gwlad: Prydain Fawr, yn flynyddol o'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2005, BUS01a [cyrchwyd Chwefror 2024]. Sylwer: mae'r ffigurau ar gyfer 2022/23 yn rhai dros dro ar hyn o bryd.

20 Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth, Dyfodol Symudedd: anghydraddoldebau o ran symudedd a mynediad yn y DU, Mawrth 2019. Grŵp Cyllideb Menywod y DU, Tuag at systemau trafnidiaeth sy'n gynhwysol o ran rhywedd ac yn gynaliadwy, Gorffennaf 2021. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Is Britain Fairer? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, 2018, Mehefin 2019, tt171-73. NatCen, Trafnidiaeth ac Anghydraddoldeb: Adolygiad tystiolaeth ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth, Hydref 2019. Yr Adran Drafnidiaeth, Arolwg Teithio Cenedlaethol: Lloegr 2022 Prif Ganlyniadau, Awst 2023, t2. Er bod yr arolwg yn seiliedig ar sampl o bobl sy'n byw yn Lloegr, gan y cyfeirir at bynciau datganoledig, gall adlewyrchu tueddiadau ehangach yn y DU.

21 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Is Britain Fairer? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, 2018, Mehefin 2019, t172.

22 Fforwm Economaidd y Byd, Mae gan drafnidiaeth broblem rhagfarn rhywedd. Dyma beth sydd angen ei newid, Ebrill 2022.

23 London TravelWatch, Out In London: LGBTQ+ People's Safety On London's Transport Network, Tachwedd 2023. Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, Arolwg LGBT Cenedlaethol Adroddiad ymchwil, Gorffennaf 2018, tt42-50.

24 Sonja J. Ellis, Jay McNeil and Louis Bailey, Gender, stage of transition and situational avoidance: a UK study of trans people's experiences, 'Sexual and Relationship Therapy', 2014, 29:3, p356.

25 Trafnidiaeth yr Alban, Barn a phrofiadau menywod a merched o ddiogelwch personol wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, Mawrth 2023. Transport for London, Deall anghenion teithio cymunedau amrywiol Llundain: BAME, Ebrill 2012, tt26-30.

26 Dadansoddiad TrC (2023). Ffynhonnell: EP Morris.

27 Dadansoddiad TrC (2023). Ffynhonnell: EP Morris

28 Dadansoddiad Arup o'r cynigion cychwynnol ar gyfer rhwydwaith TrC a gynhaliwyd yn 2023..

29 Mae'r lefelau o reolaeth a chystadleuaeth mewn ardal yn cyfeirio at gyfansoddiad y farchnad fysiau. Pan fydd cyfran uchel o wasanaethau bysiau yn cael eu contractio gan awdurdodau lleol, mae'n deg disgwyl bod gan y sector cyhoeddus gryn reolaeth, yn enwedig pan fydd contractau'n gostau gros. Pan fo cyfran uchel o'r gwasanaethau bysiau yn wasanaethau sy'n fasnachol hyfyw, mae'n debyg y bydd llawer o gystadleuaeth.

30 Wedi'u codi o Gomisiynwyr Traffig Prydain Fawr, Hysbysiadau PSV ac achosion i Gymru [cyrchwyd ym mis Chwefror 2024].



Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i
**Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the
**Welsh Government**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES